# Cronfa Gwyddoniaeth Gogledd Ddwyrain Cymru

Sefydliad Cymunedol Cymru

Nod Cronfa Wyddoniaeth Gogledd Ddwyrain Cymru yw cefnogi myfyrwyr o Sir y Fflint, Sir Ddinbych a Sir Conwy.

- Bydd y gronfa yn cefnogi myfyrwyr sy'n wynebu caledi ariannol ac yn astudio Ffiseg, Cemeg neu Fathemateg neu unrhyw gyfuniad â phwnc gwyddonol cysylltiedig.

## Grantiau sydd ar gael

Gall unigolion sy'n astudio Ffiseg, Cemeg neu Fathemateg, neu gwrs ag agwedd wyddonol sylweddol wneud cais am grant o £1,000 y flwyddyn, hyd at bedair blynedd ar gyfer y dulliau astudio canlynol:

- Lefel is-raddedig
- Lefel ôl-raddedig
- HND
- PhD

Mae'n ofynnol i ymgeiswyr ar gyfer astudiaethau ôl-raddedig gyflwyno datganiad ynghylch y rhaglen astudio a nodau ymchwil.


Fel arfer, bydd ymgeiswyr yn cael dyfarniadau drwy gydol eu cwrs, yn amodol ar gwblhau adroddiad monitro ar y flwyddyn flaenorol a chadarnhad gan eu coleg o gofrestru dilynol bob blwyddyn.

Dyfernir grantiau ar gyfer cwrs penodedig ac ni ellir eu cymhwyso at unrhyw ddiben arall heb gymeradwyaeth ysgrifenedig gan yr Sefydliad Cymunedol Cymru.

## Pwy all ymgeisio?

Rhaid i ymgeiswyr fod yn:

- Drigolion Sir y Fflint, Sir Ddinbych neu Sir Conwy.
- O dan 25 oed.
- Rhaid i'r cais ddangos angen clir am gymorth ariannol, caledi ariannol neu anghenion cymorth ychwanegol.
- Costau sy'n gysylltiedig â mynd i addysg bellach/uwch gan gynnwys cyfarpar, deunyddiau, teithio dramor, a ffioedd cwrs/arholiad.



Bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn cael eu talu ar ôl profi eich bod wedi cofrestru ar y cwrs a nodwyd.

Rhoddir blaenoriaeth i ymgeiswyr sy'n gallu dangos yn union sut y byddant yn cyflawni amcanion a blaenoriaethau'r Gronfa, ac nad ydynt wedi derbyn cefnogaeth gan y Gronfa hon o'r blaen.

**Sylwer:** Rhoddir grantiau dim ond ar gyfer costau sydd i'w codi ar ôl i gais gael ei gymeradwyo. Ni ellir dyfarnu gwobrau'n ôl-weithredol, h.y. ar gyfer gweithgareddau sydd eisoes wedi digwydd.

## Sut i ymgeisio?

Rhaid i ymgeiswyr lenwi ffurflen gais ar-lein trwy ein gwefan. Bydd y wefan yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf am ddyddiadau cau, ac ati.

Sylwer:

Mae'n rhaid i ymgeiswyr sy'n gwneud cais am gyllid ar gyfer cwrs lefel Ôl-raddedig fod wedi ennill gradd anrhydedd dosbarth 1af neu 2il uchaf.

- Dylai ymgeiswyr llwyddiannus hysbysu'r Sefydliad Cymunedol Cymru cyn gynted â phosibl os bydd unrhyw newid mewn amgylchiadau yn effeithio ar eich astudiaeth, megis newid cwrs, methiant mewn arholiadau neu salwch.
- Rhoddir blaenoriaeth i ymgeiswyr sy'n dangos orau sut maent yn cyflawni amcanion y Gronfa, ac sy'n dangos yr angen ariannol a chymdeithasol y bydd y grant yn mynd i'r afael ag ef orau.
- Rhaid i'r cais ddangos angen clir am gymorth ariannol, caledi ariannol neu anghenion cymorth ychwanegol.
- Ni ddyfernir grantiau'n ôl-weithredol, h.y. ar gyfer costau sydd eisoes wedi eu hysgwyddo cyn derbyn y llythyr cynnig grant a thelerau ac amodau wedi'u llofnodi.